# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion: PET(3) 10-10

### Dyddiad: Dydd Mawrth 13 Gorffennaf 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

**Amser: 09.32 - 10.35**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)
Andrew R.T. Davies AC, Canol De Cymru
Veronica German AC, Dwyrain De Cymru
Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Naomi Stocks, Clerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol
Mike Lewis, Cymorth Pwyllgor
Anne Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Veronica German i'r Pwyllgor.

### Eitem 2: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Papur: PET(3)-10-10 Papur 1

### 1. P-03-081 Rheoliadau Benthyciadau i Fyfyrwyr

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar ganlyniadau'r adolygiad i pa mor gymwys yw cyrsiau yn Lloegr, a gofyn am eglurhad ar effaith yr adolygiad hwn ar Gymru.

### 2. P-03-085 Meddygfeydd yn Sir y Fflint

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i ofyn am fanylion yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer datblygu canolfan iechyd yn y Fflint a gofyn a all y deisebwyr gymryd rhan yn y broses gynllunio ar lefel leol;

ysgrifennu at y deisebwyr i'w hysbysu am ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sôn wrthynt bod y Pwyllgor wedi gofyn a all y deisebwyr gymryd rhan yn y broses gynllunio ar lefel lleol.

### 3. P-03-092 A465 Ffordd Liniaru i Dafarnaubach

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn a yw'r gwelliannau a wnaed i'r ardal i gerddwyr ger yr ysgol wedi gwella diogelwch, a thynnu eu sylw at ymateb y Cyngor sy'n dynodi ei bod yn annhebygol y bydd cyswllt uniongyrchol yn cael ei adeiladu rhwng yr A465 a Tafarnaubach yn y dyfodol agos.

### 4. P-03-118 Cymdeithas Canwïo Cymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyflwyno adroddiad cloi cryno arni.

### 5. P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd Lleol i ofyn pa gamau a gymerwyd yn dilyn y cynllun teithio cynaliadwy, ac yn benodol pa gamau a gymerwyd mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd i integreiddio trafnidiaeth;

ysgrifennu at y deisebydd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y modd y mae'r byrddau iechyd lleol yn gweithredu'r cynllun teithio cynaliadwy.

### 6. P-03-148 Cyflwyno gwasanaeth trên uniongyrchol rhwng Glynebwy a Chasnewydd

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyflwyno adroddiad cloi cryno arni.

### 7. P-03-169 Tîm Olympaidd i Gymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebydd yn rhoi gwybodaeth am yr ohebiaeth a gafwyd gan y Gweinidog dros Dreftadaeth a hysbysu'r deisebwyr bod y Pwyllgor yn aros am ragor o wybodaeth gan y Pwyllgor Rhyngwladol Olympaidd a Chymdeithas Olympaidd Prydain.

### 8. P-03-187 Dileu'r Tollau ar Ddwy Bont Hafren

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am ragor o fanylion am ei drafodaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, a gofyn am gael clywed y diweddaraf ynghylch cynnydd yr asesiad o effaith;

Ysgrifennu at y deisebydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y ddeiseb hon, ac i gynnwys y cofnod o drafodion y ddadl ar y mater yn y Cyfarfod Llawn.

### 9. P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr i roi gwybod iddynt am adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ac i ofyn eu barn am argymhellion yr adroddiad.

### 10. P-03-200 Camlas Morgannwg

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gynghorau Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd i ofyn am ragor o fanylion am yr opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer llwybrau cerdded a beicio ar hyd ymyl y gamlas ac yn rhoi safbwyntiau'r deisebwyr iddynt;

Ysgrifennu at y deisebydd gyda gwybodaeth am y ffynonellau arian posibl ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

### 11. P-03-204 Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes Addysg Uwch

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  i ofyn am eu barn ar y ddeiseb hon, yng nghyd-destun eu Cynllun Corfforaethol sy'n ceisio cryfhau llywodraethu yn y sector hwn;

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn ei farn a oes modd i'r adolygiad llywodraethol ymgorffori'r 13 pwynt a nodir yng ngohebiaeth y deisebydd;

Ysgrifennu at Addysg Uwch Cymru i ofyn am barn ar y materion a ddaeth i'r amlwg;

Ysgrifennu at y Brifysgol ac Undeb y Coleg, ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i ofyn am eu barn am y ddeiseb hon.

### 12. P-03-209 Dileu Ffioedd Dysgu yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a chynhyrchu adroddiad cloi cryno arni.

### 13. P-03-211 Cyfleusterau gofal i ddioddefwyr demensia

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn eu barn, yn benodol ynghylch a yw cylch gwaith y grwpiau arbenigol yn rhoi sylw digonol i'r materion sy'n dod i'r amlwg gan y ddeiseb hon.

### 14. P-03-215 Gwahardd digwyddiadau gwleidyddol mewn ysgolion

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a chynhyrchu adroddiad cloi cryno arni.

### 15. P-03-223 Adran 6, Deddf yr Iaith Gymraeg

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am ei farn am ymateb y Gweinidog;

Ysgrifennu at yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol i ofyn sut y byddant yn sicrhau bod Aelodau Seneddol o Gymru yn gwybod

bod modd iddynt hawlio costau cyfieithu, ac i ofyn am eu safbwyntiau ar y farn y dylai etholwyr fod â hawl i gael gohebiaeth yn Gymraeg os mai dyma eu dewis.

### 16. P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a chynhyrchu adroddiad cloi cryno arni.

### 17. P-03-227 Yn erbyn y Ffordd Fynediad yn Llanmaes / P-03-252 Gwrthwynebu Ffordd Fynediad Ogleddol Canolfan y Llu Awyr Brenhinol, SainTathan

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog Amddiffyn i ofyn pryd y maent yn tybio y bydd penderfyniad ynghylch y Coleg Hyfforddi Amddiffyn, ac i geisio eglurhad ynghylch a fydd y coleg yn dod o fewn cylch gwaith yr Adolygiad Amddiffyn Strategol.

### 18. P-03-244 Cofrestr cynlluniau Awdurdodau Lleol ar ddiogelwch y ffyrdd

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn ail-bwysleisio bod y ddeiseb yn ymwneud â rhestr blaenoriaethau o ran cynlluniau ac yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfod yr Is-grwp Gwasanaethau Traffig a'r ymgynghoriad â Pheirannwyr Traffig Awdurdodau Lleol.

### 19. P-03-248 Gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i bobl ag anableddau

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Drenau Arriva Trains yng Nghymru yn ail-adrodd bod y Pwyllgor wedi gofyn a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i adolygu hygyrchedd eu gwasanaethau ac effaith hyn ar gwsmeriaid, gan nad oes modd gweld unrhyw gyfeiriad at hyn yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal;

Ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ofyn fod y Pwyllgor yn cael gwybod am y cynnydd gyda'u hymchwiliad.

### 20. P-03-264 Helpwch i atal y dirywiad ofnadwy mewn bywyd gwyllt a chynefinoedd

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr gyda manylion ynghylch penderfyniad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gynnal ymchwiliad;

Ail-edrych ar y ddeiseb, gan feddwl ei chau, pan fydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi cyhoeddi ei adroddiad.

### 21. P-03-265 Cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael cartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr Arfarniad Housemate, ac am ganlyniadau o drafodaethau â'r Arbenigwr Pwnc PSE, yn ogystal â gofyn barn am ohebiaeth y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

## 22. P-03-270 Gweithredu dros Blant

Bu’r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i’w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ymgorffori ymatebion gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ac Estyn i’r ymchwiliad;

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn am eglurhad ar y categorïau o bobl ifanc sy’n cael eu hystyried gan y Grwp Tasg a Gorffen.

## 23. P-03-272 Ni ddylid defnyddio ceffylau o dan ddaear

Bu’r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i’w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebydd i ofyn ei farn am yr ymateb gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig;

Ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurhad ynghylch pam nad yw hi’n bosibl dileu’r gorchymyn Coal and Other Mines (Horses) Order 1956 yng Nghymru;

Ysgrifennu at y Grwp Trawsbleidiol ar y Ceffyl i ofyn eu barn hwythau.

## 24. P-03-273 Cludo tyrbinau gwynt yn y Canolbarth

Bu’r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn eu barn am ymateb y Dirprwy Brif Weinidog ac yn benodol, i ofyn pa mor gynhwysfawr a yw’r Egwyddorion Cyffredinol sydd wedi’u rhestru.

## 25. P-03-276 Cynnig dros Ferched

Bu’r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i’w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros nes bod yr Adroddiad Blynyddol - Cynllun Gweithredu ac adolygiad Cerdded a Beicio yn cael ei gyhoeddi i ganfod a yw’r Dirprwy Brif Weinidog wedi cynnwys unrhyw rai o’r materion a amlygwyd gan y deisebydd.

## 26. P-03-279 Achubwch Brifysgolion Cymru

Bu’r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i’w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ofyn eu barn ar y ddeiseb, yng nghyd-destun y datganiad diweddar gan y Gweinidog, ac i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch sut y bydd y Gronfa Gweithredu Strategol yn newid y dulliau o ariannu Sefydliadau Addysg Uwch yn y dyfodol;

Ysgrifennu at Addysg Uwch Cymru i ofyn eu barn am y ddeiseb yng nghyd-destun Strategaeth Gorfforaethol newydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a’r datganiad diweddar gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes;

Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn eu barn ar y cyhoeddiad diweddar gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

## 27. P-03-280 Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Bu’r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i’w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr â manylion y gwasanaethau a gaiff eu cynllunio ar gyfer safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd; ac

Ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd Lleol i ofyn bod y deisebwyr yn cael eu cynnwys mewn gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd o fewn y gymuned leol.

### 28. P-03-282 Parhewch i ariannu gwasanaethau cymorth ar gyfer demensia cynnar

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a chynhyrchu adroddiad cloi cryno arni.

### 29. P-03-291 Datblygu Gwasanaethau Gwybodaeth am HIV ac Iechyd Rhywiol

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn tynnu sylw at y gwahoddiad iddynt gael eu cynnwys yn yr adolygiad o wybodaeth am iechyd rhywiol a gaiff ei gynnal gan Rwydwaith Iechyd Rhywiol Cymru Gyfan;

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn a yw grwpiau eraill o'r un math yn cymryd rhan, neu'n cael eu hannog i gymryd rhan, yn yr adolygiad.

### 30. P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ynghylch pa awdurdodau lleol sydd wedi ymrwymo i'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus ar gyfer 2010-11.

### 31. P-03-295 Gwasanaethau Niwroadsefydlu Paediatrig

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth am:

pa welliannau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer niwroleg paediatrig;

faint o gleifion yng Nghymru sydd angen gwasanaeth niwroadsefydlu paediatrig arbenigol dwys;

pryd y bydd yr adolygiad ar gymorth clinigol i wasanaethau adsefydlu wedi'i gwblhau;

sut y bydd gweithredu llwybrau gofal ar gyfer cyflyrau niwrolegol tymor hir yn cael ei fonitro pan fydd yr adolygiad ar gymorth clinigol ar gyfer gwasanaethau adsefydlu wedi'i gwblhau er mwyn osgoi amrywiaeth o ran darpariaeth drwy Gymru;

Ysgrifennu at y deisebwyr yn rhoi gwybod am ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r wybodaeth yr oedd y Gweinidog yn gofyn amdani.

**Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat yn unol â Rheol Sefydlog 10.37**

### Eitem 3. P-03-270 - Ymchwiliad Gweithredu dros Blant - cytuno ar gwmpas yr ymchwiliad.

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gwmpas yr ymchwiliad.

### Eitem 4. Ystyried Gweithdrefnau'r Pwyllgor

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y diwygiadau i weithdrefnau'r Pwyllgor.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2010**